***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 3185 (Cy.301) (C.107)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2002

*Wedi'i wneud - - 18 Rhagfyr 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd iddo gan adran 216(3), (4)(b) a (5) o Ddeddf Addysg 2002(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enw, Cymhwyso a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2002.

**2.** Mae'r Gorchymyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru yn unig ac eithrio mewn perthynas â

Rhan 7,

adrannau 191 i 196 ac Atodlen 18,

paragraffau 5(1) i (4), (6) a 6 i 8 o Atodlen 17 ac adran 189 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r paragraffau hynny,

Rhan 2 o Atodlen 22 ac adran 215(2) i'r graddau y mae'n ymwneud â'r Rhan honNo.

**3.** Yn y Gorchymyn hwn, oni nodir fel arall, mae cyfeiriadau at Rannau, adrannau ac Atodlenni yn gyfeiriadau at Rannau ac adrannau o Ddeddf Addysg 2002 a'r Atodlenni iddi.

**Dyddiau penodedig**

**4.** 19 Rhagfyr 2002 yw'r diwrnod penodedig i'r darpariaethau a bennir yn Rhan 1 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.

**5.** 31 Mawrth 2003 yw'r diwrnod penodedig i'r darpariaethau a bennir yn Rhan II o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.

**6.** 1 Medi 2003 yw'r diwrnod penodedig i'r darpariaethau a bennir yn Rhan III o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.

(**1**) 2002 p.32.

**Darpariaethau trosiannol ac arbedion**

**7.** Er gwaethaf y ffaith bod adran 49 yn dod i rym, a heb ragfarn i adran 16(1)(c) o Ddeddf Dehongli 1978(**2**), mae adrannau 86(3)(b) a 91 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**3**) (trefniadau arbennig i gadw cymeriad crefyddol ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol a gynorthwyir) i barhau i gael effaith mewn perthynas â threfniadau derbyn ysgol a gynhelir ar gyfer unrhyw flwyddyn ysgol cyn 2004 i 2005.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**).

*D. Elis-Thomas*
18 Rhagfyr 2002 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**2**) 1978 p.30.
(**3**) 1998 p.31.
(**4**) 1998 p.38.

**YR ATODLEN** **Erthyglau 4, 5 a 6**

# RHAN I

## DARPARIAETHAU YN DOD I RYM AR 19 RHAGFYR 2002

| DARPARIAETH | Y PWNC |
|---|---|
| Adran 49 | Diddymu pŵer i wneud trefniadau arbennig penodol er mwyn cadw cymeriad crefyddol |
| Adrannau 54, 55, 56 | Ysgolion sy'n peri pryder |
| Adran 75 i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 10 isod | Sefydlu ysgolion etc: newidiadau i'r gweithdrefnau presennol |
| Adrannau 97, 98, 99(1), 100 ac eithrio is-adrannau (1)(b), (2)(b) a (5), 101 ac eithrio is-adran (3)(b), 103, 105 i 107, 108 ac eithrio is-adrannau (1)(a), (2) a (6), 109, 111 i 118 | Y Cwricwlwm yng Nghymru |
| Adran 131 | Gwerthuso athrawon ysgol |
| Adrannau 132, 133, 134 (1), (4) a (5), 135 | Cymwysterau athrawon ysgol |
| Adran 141 | Athrawon — iechyd a ffitrwydd |
| Adran 145 | Cymwysterau athrawon — cyffredinol |
| Adran 148 i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 12 isod | Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru |
| Adran 151(2) | Swyddogaethau gofal plant Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Adran 152 i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 13 isod | Rheoleiddio gwarchod plant a gofal dydd |
| Adran 179(1), (4), (5) a (6) | Hawl mynediad mewn perthynas ag arolygiadau |
| Adran 180 | Arolygiadau AALlau: hawliau mynediad, etc |
| Adran 188 i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 16 isod | Arolygiadau ysgolion |
| Adran 189 i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 17 isod | Diwygiadau i Ran 5 o Ddeddf Addysg 1997 |
| Adrannau 191 i 194 | Darpariaeth ranbarthol o addysg i blant ag anghenion addysgol arbennig |
| Adran 196 | Cyhoeddi a darparu deunyddiau |
| Adran 215(1) i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 21 isod | Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol |
| Adran 215(2) i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 22 isod | Diddymiadau |
| Atodlen 5 | Ysgolion sy'n peri pryder |

| DARPARIAETH | Y PWNC |
|---|---|
| Atodlen 10,<br>Paragraffau 1, 6, 11 a 15 | Sefydlu ysgolion etc: newidiadau i'r gweithdrefnau presennol |
| Atodlen 12,<br>Paragraffau 1, 2, 4(1) a (3), 6 a 7 | Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru |
| Atodlen 13,<br>Paragraffau1 i 3, 5, 6, 7(1) a (3), 8 | Rheoleiddio gwarchod plant a gofal dydd |
| Atodlen 16,<br>Paragraffau 4 i 9 | Arolygiadau ysgolion |
| Atodlen 17,<br>Paragraffau 5 (1) — (4), (6), 6 i 8 | Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru |
| Atodlen 21,<br>Paragraff 8,<br>Paragraff 11,<br>Paragraff 13,<br>Paragraff 16,<br>Paragraff 19,<br>Paragraffau 20 a 21,<br>Paragraffau 31, 32 a 33,<br>Paragraff 45,<br>Paragraff 46 (ac eithrio is-baragraff (6)),<br>Paragraff 47 (ac eithrio is-baragraff (3))<br>Paragraff 48,<br>Paragraff 51,<br>Paragraff 53,<br>Paragraff 57 (ac eithrio is-baragraff (a)),<br>Paragraff 59 (ac eithrio is-baragraff (a)),<br>Paragraff 66,<br>Paragraff 70,<br>Paragraff 74,<br>Paragraff 76 (ac eithrio is-baragraff (b)),<br>Paragraff 78,<br>Paragraff 81,<br>Paragraff 85 (ac eithrio is-baragraff (b)), | Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol |

| DARPARIAETH | Y PWNC |
|---|---|
| Paragraffau 87 ac 88, | |
| Paragraffau 95 a 96, | |
| Paragraff 98(1) a (2) (ac eithrio is-baragraffau (b) a (c)), | |
| Paragraff 99(1) a (3) (ac eithrio is-baragraff (a)), | |
| Paragraffau 104 a 105, | |
| Paragraffau 108 a 109, | |
| Paragraff 113 (ac eithrio is-baragraffau (a) i (d), (f) a (g)), | |
| Paragraff 114, | |
| Paragraff 117, | |
| Paragraff 118 (1), (2), (3) (ac eithrio is-baragraff (b)), (4) (ac eithrio is-baragraff (a)(ii)) a (5), | |
| Paragraff 126 (1), (2) i'r graddau y mae'n ymwneud â'r diwygiadau i baragraffau 21 a 29 o Atodlen 7 i Ddeddf Dysgu a Medrau 2000(**5**), a (3) i'r graddau y mae'n ymwneud â'r diwygiad i baragraff 39 o Atodlen 7 i Ddeddf Dysgu a Medrau 2000. | |
| *Yn Atodlen 22, Rhan 2, diddymu—* | Diddymiadau |
| Deddf Addysg 1997(**6**), yn adran 29, yn is-adran (2), paragraff (f), a'r gair “and” yn union o'i flaen, | |
| yn adran 32(3), y geiriau “or approved” a'r geiriau “and subject to such conditions”; | |
| *Yn Atodlen 22, Rhan 3, diddymu—* | |
| Deddf Addysg (Rhif 2) 1986(**7**), adran 49; | |
| Deddf Plant 1989(**8**)), yn adran 79M(1), y gair “or” ar ddiwedd paragraff (a), yn adran 79U, is-adran (5) ac yn is-adran (9), y diffiniad o “authorised inspector”; | |
| Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**9**), yn adran 23(4), paragraff (b) a'r gair “and” yn union o'i flaen, adrannau 39 i 42, adran 60; | |

(**5**) 2000 p.21.
(**6**) 1997 p.44.
(**7**) 1986 p.61.
(**8**) 1989 p.41.
(**9**) 1992 p.13.

| DARPARIAETH | Y PWNC |
|---|---|
| Deddf Addysg 1996(**10**), adrannau 350 — 369, adran 408(4) (a), yn adran 409(1) y geiriau "with the approval of the Secretary of State and"; | |
| Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996(**11**), yn adran 6(3) y gair "and" ar ddiwedd paragraff (a), yn adran 16(3) y gair "and" o flaen paragraff (d); | |
| Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**12**)), adran 1(8), yn adran 3 y geiriau "within the meaning of section 218(2) of the Education Reform Act 1988"; | |
| Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**13**), adran 16(4) a (13), yn adran 22(1), ym mharagraff (b) y geiriau "under section 28 or 31" ac ym mharagraff (c) y geiriau "under section 28", adrannau 86(3)(b) a 91, yn Atodlen 6, ym mharagraff 10(6), y geiriau "or (5)", yn Atodlen 28, paragraff 4(1); | |
| Deddf Dysgu a Medrau 2000(**14**)), adrannau 130 i 132 a 148(2), yn Atodlen 9, paragraffau 26, 30, 35, 59(6)(b). | |

# RHAN II

## DARPARIAETHAU YN DOD I RYM AR 31 MAWRTH 2003

| DARPARIAETH | Y PWNC |
|---|---|
| Adrannau 14 i 17 a 18(2) | Cymorth ariannol ar gyfer addysg a gofal plant |
| Adrannau 142 i 144 | Athrawon — camymddwyn |
| Adran 146 i'r graddau y mae'n ymwneud â diddymu adrannau 218(2B), (6), (6ZA), (6A), (6B), (7) a 218A o Ddeddf Diwygio Addysg 1998(**15**) | Diddymu adrannau 218 a 218A o Ddeddf Diwygio Addysg 1998 |
| Adran 148 i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 12 isod | Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru |
| Adran 149 | Dyletswyddau AALl mewn perthynas â gofal plant |

(**10**) 1996 p.56.
(**11**) 1996 p.57.
(**12**) 1998 p.30.
(**13**) 1998 p.31.
(**14**) 2000 p. 21.
(**15**) 1988 p.40.

| DARPARIAETH | Y PWNC |
|---|---|
| Adran 150 | Partneriaethau a chynlluniau datblygu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant |
| Adran 195 i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 18 isod | Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru |
| Adran 200 | Dileu taliadau sy'n ymwneud â thripiau preswyl |
| Adran 201(1) ac eithrio i'r graddau y mae'n ymwneud ag is-adran (1)(c) o adran 512 newydd o Ddeddf Addysg 1996, (2) a (3) | Swyddogaethau AALl ynghylch prydau bwyd ysgolion, llaeth, etc. |
| Adran 215(1) i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 21 isod | Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol |
| Adran 215(2) i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 22 isod | Diddymiadau |
| Atodlen 12,<br><br>Paragraff 12(1) a (2) | Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru |
| Atodlen 18,<br><br>Paragraffau 1, 4, 5 a 7, Paragraff 8 i'r graddau y mae'n mewnosod is-adran newydd (2) yn adran 28H o Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995, Paragraffau 13 i 15 | Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru |
| Atodlen 21,<br>Paragraff 9,<br>Paragraff 49,<br>Paragraff 54,<br>Paragraff 71 i'r graddau y mae'n ymwneud ag adran 49(2) a (3) o Ddeddf Addysg 1997<br>Paragraff 72,<br>Paragraff 73,<br>Paragraff 75,<br>Paragraff 76 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym,<br>Paragraff 77,<br>Paragraff 83,<br>Paragraff 85 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym,<br>Paragraff 86,<br>Paragraff 120,<br>Paragraff 121,<br>Paragraff 122 ac eithrio is-baragraff (b), | Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol |

| DARPARIAETH | Y PWNC |
|---|---|
| Paragraff 123, | |
| Paragraff 128. | |
| *Yn Atodlen 22, Rhan 3, diddymu—* | Diddymiadau |
| Deddf Diwygio Addysg 1988(**16**), adrannau 218(2B), (6), (6ZA), (6A), (6B), (7) a 218A; | |
| Deddf Plant 1989(**17**), yn adran 19, is-adrannau (1) a (2) ac yn is-adran (4) y geiriau “the two authorities, or in Scotland,”; | |
| Deddf Addysg 1997(**18**), adran 49(2) a (3); | |
| Deddf yr Heddlu 1997(**19**), yn adran 113, yn is-adran (3A), paragraff (a) (ii) a (iii) ac yn is-adran (3B), paragraff (c) a'r geiriau o “and the reference” hyd at y diwedd, adran 115(6A) (a) (ii) (a) (iii); | |
| Deddf Addysgu ac Uwch 1998, yn Atodlen 2, paragraff 1(5); | |
| Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, adran 115, yn adran 119(5), y gair “and” ar ddiwedd paragraff (a), yn adran 120(2)(a), y geiriau “of proposals” ac “and”, yn adran 121, yn is-adran (1), y geiriau “the authority's statement of proposals” ac yn is-adran (9) y geiriau “early years development”; | |
| Deddf Amddiffyn Plant 1999(**20**), adran 5, yn adran 7, is-adran (1) (a)(ii) a (iii), y gair “and” yn union o flaen is-adran (2)(c) ac is-adran (4), yn adran 9(2), y gair “or” ar ddiwedd paragraff (d), yn adran 12(2) y diffiniad o “the 1988 Act”; | |
| Deddf Mewnfudo a Llochesu 1999(**21**), yn Atodlen 14, paragraff 117; | |
| Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000(**22**), adran 35(5), yn Atodlen 7, paragraff 83. | |

(**16**) 1988 p.40.
(**17**) 1989 p.41.
(**18**) 1997 p.44.
(**19**) 1997 p.50.
(**20**) 1999 p.14.
(**21**) 1999 p.33.
(**22**) 2000 p.43.

# RHAN III

## DARPARIAETHAU YN DOD I RYM AR 1 MEDI 2003

| DARPARIAETH | Y PWNC |
|---|---|
| Adran 195 i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 18 isod | Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru |
| Adran 215(2) i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 22 isod | Diddymiadau |
| Atodlen 18, Paragraffau 2, 3, 6, 8 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym), 9 i 12 a 16 i 18 | Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru |
| *Yn Atodlen 22, Rhan 2, diddymu—* | Diddymiadau |
| Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995(**23**), adran 28J(4); | |
| Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001(**24**), adran 42(2), yn Atodlen 8, paragraff 2. | |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym yng Nghymru ar 19 Rhagfyr 2002 y darpariaethau hynny yn Neddf Addysg 2002 a bennir yn Rhan I o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn. Mae hefyd yn dwyn i rym ar 31 Mawrth 2003 y darpariaethau hynny a bennir yn Rhan II o'r Atodlen, ac ar 1 Medi 2003 y darpariaethau hynny a bennir yn Rhan III o'r Atodlen. Mae'r Gorchymyn hefyd yn gwneud darpariaethau trosiannol mewn perthynas â threfniadau derbyn.

Dyma fydd effaith y darpariaethau a bennir yn Rhan I o'r Atodlen—

Mae *adran 49* yn diddymu adran 91 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 sy'n caniatáu i ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol a gynorthwyir sydd â chymeriad crefyddol iddi wneud trefniadau arbennig yn ei threfniadau derbyn er mwyn cadw'i chymeriad crefyddol.

Mae *adrannau 54 i 56 ac Atodlen 5* yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag ysgolion sy'n peri pryder. Mae adran 54 yn mewnosod adran 16A newydd o Ddeddf Arolygiadau Ysgolion 1996 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Brif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru i hysbysu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol") os yw arolygydd o'r farn fod gan ysgol wendidau difrifol neu fod angen mesurau arbennig arni. Mae adran 55 yn diwygio adran 15 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ("Deddf 1998") sy'n nodi'r achosion pan gaiff AALl ddefnyddio'u pwerau ymyrryd. Mae'r diwygiadau'n darparu bod adran 15 o Ddeddf 1998 yn gymwys i ysgolion sydd â gwendidau difrifol neu sydd angen mesurau arbennig ar ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol gael ei hysbysu o dan adran 16A o Ddeddf Arolygiadau Ysgolion 1996. Mae adran 56

(**23**) 1995 p.50.
(**24**) 2001 p.10.

yn diwygio adrannau 18 a 19 o Ddeddf 1998 er mwyn darparu bod pwerau'r Cynulliad Cenedlaethol i benodi llywodraethwyr ychwanegol a chyfarwyddo AALl i gau ysgol yn gymwys i ysgolion sydd â gwendidau difrifol yn ogystal â'r rhai sydd angen mesurau arbennig. Mae Atodlen 5 yn gwneud diwygiadau i Ddeddf 1998 o ganlyniad i adrannau 55 a 56.

Mae *adran 75 ac Atodlen 10, paragraffau 1,6,11 a 15* yn diwygio Atodlen 6 i Ddeddf 1998 ac Atodlen 7 i Ddeddf Dysgu a Medrau 2000, er mwyn darparu nad yw cynigion i sefydlu, newid neu gau ysgolion, neu gynigion sy'n ymwneud â chweched dosbarth annigonol, a gymeradwyir yn amodol gan y Cynulliad Cenedlaethol i gael eu trin fel rhai gwrthodedig os nad yw'r amod yn cael ei fodloni, ond eu bod i gael eu hystyried o'r newydd.

Mae *adrannau 97, 98, 99(1), 100 (ac eithrio is-adrannau (1)(b), (2)(b) a (5)), 101 (ac eithrio is-adran (3)(b)), 103, 105 i 107, 108 (ac eithrio is-adrannau (1)(a), (2) a (6)), 109, 111 i 118* yn ailddeddfu darpariaethau yn Neddf Addysg 1996 mewn perthynas â'r Cwricwlwm Cenedlaethol, sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer Cwricwlwm Cenedlaethol ar wahân ar gyfer Cymru. Dygir y darpariaethau i rym ac eithrio mewn perthynas â'r cyfnod sylfaen newydd a ysgolion meithrin a gynhelir.

Mae *adran 131* yn ailddeddfu a diweddaru adran 49 o Ddeddf Addysg (Rhif 2) 1986, ac mae'n galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i werthuso perfformiad athrawon.

Mae adrannau *132, 133, 134(1), (4) a (5), 135, 141 a 145* yn ymwneud â chymwysterau athrawon. Mae adran 132 yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud rheoliadau i benderfynu pwy sydd yn athro neu athrawes gymwysedig ac yn ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ("y Cyngor"). Mae adran 133 yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i nodi mewn rheoliadau y gwaith na all ond athrawon cymwysedig neu bersonau penodedig eraill ei gyflawni. Mae adran 134(1), (4) a (5) yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol bod athrawon cymwysedig yn cofrestru gyda'r Cyngor cyn cyflawni gwaith penodedig. Mae adran 135 yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid fod yn athrawon cymwysedig ac yn ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid a benodir ar ôl y dyddiad cychwyn ddal cymhwyster penodedig. Mae adran 141 yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i athrawon fodloni amodau mewn perthynas â'u hiechyd a'u gallu corfforol. Mae adran 145 yn gwneud darpariaeth gyffredinol mewn perthynas â phennu cymwysterau neu gyrsiau.

Mae *adran 148 ac Atodlen 12, paragraffau 2, 4(1), (3), 6 a 7* yn diwygio Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 mewn perthynas â'r Cyngor. Mae'r diwygiadau yn darparu—

- ar gyfer estyn swyddogaethau ymgynghorol y Cyngor;
- bod y Cyngor i roi sylw i'w wariant ar ei holl swyddogaethau pan fydd yn gosod lefel ei ffioedd; a
- bod y Cyngor yn gallu ymgymryd â gweithgareddau i hybu statws y proffesiwn addysgu.

Mae *adran 151(2)* yn caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol wneud gorchymyn yn pennu swyddogaethau ychwanegol y mae angen amdanynt i'w alluogi i weithredu cynllun gofal plant o dan Ddeddf Credydau Treth 2002.

Mae *adran 152 ac Atodlen 13, paragraffau 1 i 3, 5, 6, 7(1) a (3) a 8* yn diwygio Deddf Plant 1989, Rhan 10A ac Atodlen 9A, sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â gwarchod plant a gofal dydd. Mae'r diwygiadau'n ymwneud â chanlyniadau methu â chydsynio i wirio addasrwydd person; effaith atal cofrestriad; y pŵer i ragnodi dyfarniadau ychwanegol a all fod yn destun apêl; hawliau mynediad i arolygwyr awdurdodedig; y pŵer i wneud rheoliadau sy'n hepgor datgymhwyso ar gyfer cofrestru. Gwneir diwygiadau canlyniadol hefyd i Ddeddf yr Heddlu 1997 mewn perthynas â thystysgrifau record droseddol a thystysgrifau record droseddol manwl.

Mae *adran 179(1), (4), (5) a (6)* yn diwygio Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996 i estyn hawl mynediad arolygydd i unrhyw dir neu adeilad y trefnodd ysgol i addysg gael ei darparu yno ar gyfer disgyblion 14—16 oed.

Mae *adran 180* yn diwygio Deddf Addysg 1997 er mwyn estyn hawl mynediad arolygydd i gyflawni arolygiadau o dan adran 38 o'r Ddeddf, i dir neu adeiladau lle darperir addysg yn unol â threfniadau AALl i addysgu plant heblaw mewn ysgol.

Mae *adran 188 ac Atodlen 16, paragraffau 4 i 9* yn diwygio Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996 er mwyn

— galluogi'r Prif Arolygydd ddefnyddio aelod o'r Arolygiaeth yn hytrach nag arolygydd cofrestredig i gyflawni arolygiad o dan adran 10 o'r Ddeddf honno, os yw o'r farn ei bod yn hwylus i wneud hynny;

— galluogi aelodau o'r Arolygiaeth weithredu fel aelodau o dimau sy'n cynorthwyo arolygwyr cofrestredig mewn arolygiadau ysgolion;

— galluogi rheoliadau i bennu personau ychwanegol y mae'n rhaid anfon copïau o adroddiadau arolygiadau ysgolion atynt;

— ei gwneud yn ofynnol bod copi o gynllun gweithredu'r ysgol yn cael ei anfon at y Prif Arolygydd dim ond os oes angen mesurau arbennig ar ysgol neu os oes ganddi wendidau difrifol.

Mae *adran 189 ac Atodlen 17, paragraffau 5(1) — (4), (6) a 6 i 8* yn diwygio Rhan 5 o Ddeddf Addysg 1997 er mwyn

— estyn swyddogaethau Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (“ACCAC”) mewn perthynas â'r cwricwlwm ac asesu i blant o dan oedran ysgol gorfodol;

— galluogi ACCAC i gymryd i ystyriaeth yr angen i sicrhau nad yw nifer y cymwysterau achrededig mewn meysydd pwnc tebyg neu sy'n gwasanaethu swyddogaethau tebyg yn ormodol;

— galluogi ACCAC i osod amodau ar ôl iddo achredu cymwysterau;

— estyn hawliau mynediad ac arolygu ACCAC mewn cysylltiad â'i bŵ er i gyfyngu ar faint y ffioedd y gall cyrff dyfarnu eu codi;

— rhoi pŵer i ACCAC gyfarwyddo'r cyrff dyfarnu sydd wedi methu, neu sy'n debygol o fethu, cydymffurfio ag amodau achredu.

Mae *adrannau 191 i 194* yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â darpariaeth ranbarthol ar gyfer anghenion addysgol arbennig. Mae adran 191 yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i gyfarwyddo AALlau i ystyried a allent wneud y ddarpariaeth ar gyfer anghenion addysgol arbennig yn fwy effeithiol drwy ddarpariaeth ranbarthol. Mae adran 192 yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i gyfarwyddo AALl neu gorff llywodraethu i wneud cynigion mewn cysylltiad â sefydlu ysgol ranbarthol sy'n darparu ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig, neu mewn cysylltiad â'r trefniadau i ddarparu addysg neu nwyddau a gwasanaethau ar sail ranbarthol. Mae adran 193 yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud cynigion i sicrhau darpariaeth ranbarthol. Mae adran 194 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Addysg 1996.

Mae *adran 196* yn ei gwneud yn ofynnol i AALl gyhoeddi gwybodaeth a roddir iddo gan y Cynulliad Cenedlaethol, neu ddarparu gwybodaeth o'r fath i bersonau penodedig.

Mae *adran 215 ac Atodlenni 21 a 22* yn gwneud mân ddiwygiadau, diwygiadau canlyniadol a diddymiadau.

Dyma fydd effaith y darpariaethau a bennir yn Rhan II o'r Atodlen—

Mae *adrannau 14 i 17 a 18(2)* yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i roi cymorth ariannol i unrhyw berson at ddibenion addysgol, at ddibenion sy'n berthnasol i addysg ac at ddibenion sy'n berthnasol i ofal plant.

Mae *adrannau 142 i 144 a 146* yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chamymddwyn. Mae adran 142 yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol, yn gyfamserol â'r Ysgrifennydd Gwladol, i wneud cyfarwyddiadau yn gwahardd person rhag gweithio mewn ysgolion, sefydliadau addysg bellach neu awdurdodau addysg lleol ar sail camymddwyn, iechyd, anaddasrwydd i weithio gyda phlant, neu mewn perthynas ag ysgolion annibynnol, ar sail anghymwysedd proffesiynol. Mae adran 143 yn gosod dyletswyddau ar gyrff, megis asiantaethau cyflenwi, i drefnu nad yw person sy'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd yn cyflawni gwaith a fyddai'n groes iddo. Mae adran 144 yn darparu bod hawliau apêl yn erbyn gwneud y cyfarwyddiadau hynny. Cychwynnir adran 146 ond er mwyn diddymu darpariaethau yn adrannau 218 a 218A o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 sy'n ymwneud â chamymddwyn.

Mae *adran 148 ac Atodlen 12, paragraff 12(1) a (2)* yn diwygio Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 er mwyn galluogi'r Cyngor i glymu amodau wrth y gorchmynion atal y mae'n eu gwneud mewn achosion disgyblu.

Mae *adrannau 149 a 150* yn diwygio adrannau 118 i 121 o Ddeddf 1998 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r AALl weithredu adolygiadau blynyddol ar ddarparu gofal plant, sefydlu gwasanaeth gwybodaeth ar ofal plant, ac er mwyn cynnwys gofal plant yn y cynlluniau a phartneriaethau datblygu'r blynyddoedd cynnar.

Mae *adran 195 ac Atodlen 18, paragraffau 1, 4, 5, 7, 8, 13 i 15* yn diwygio Deddf Addysg 1996 er mwyn darparu ar gyfer Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Cychwynnir y darpariaethau hyn yn Ebrill 2003 at ddibenion sefydlu'r Tribiwnlys newydd yn unig, ond nid er mwyn rhoi unrhyw swyddogaethau i'r Tribiwnlys.

Mae *adran 200* yn diwygio adran 457 o Ddeddf Addysg 1996 er mwyn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i ragnodi budd-daliadau neu gredydau treth mewn perthynas â dileu taliadau sy'n ymwneud â thripiau preswyl.

Mae *adran 201* yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chiniawau ysgol. Mae'n amnewid adrannau 512, 512ZA a 512ZB newydd yn Neddf Addysg 1996 ac yn gwneud diwygiadau canlyniadol eraill. Mae'r darpariaethau newydd yn nodi pwerau'r AALl i ddarparu prydau bwyd, llaeth a lluniaeth arall mewn ysgolion, yn cyflwyno pŵer newydd i'r Cynulliad Cenedlaethol bennu gofynion sydd i'w bodloni cyn bod angen i AALl ddarparu ciniawau ysgol ac yn ei gwneud yn ofynnol i AALl godi tâl am brydau bwyd, llaeth a lluniaeth ac eithrio onid oes hawl gan berson i brydau bwyd di-dâl.

Mae *adran 215 ac Atodlenni 21 a 22* yn gwneud mân ddiwygiadau, diwygiadau canlyniadol a diddymiadau.

Dyma fydd effaith y darpariaethau a bennir yn Rhan III o'r Atodlen—

Mae *adran 195 ac Atodlen 18, paragraffau 2, 3, 6, 8, 9 i 12 a 16 i 18* yn darparu ar gyfer sefydlu Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ar wahân, fel y bydd yn gallu gwrando ar apelau anghenion addysgol arbennig o fis Medi 2003 ymlaen. Bydd y Tribiwnlys hefyd yn gwrando ar hawliadau ar wahaniaethu ar sail anabledd.

Mae *adran 215(2) ac Atodlen 22* yn darparu ar gyfer diddymiadau.